**P-05-697 – 45,000 o Resymau Pam bod ar Gymru Angen Strategaeth ar Ddementia**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Altzheimer's Society ar ôl casglu 5,861 llofnod.

***Geiriad y ddeiseb***

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i strategaeth ar ddementia sy'n gwella bywydau pobl sy'n byw â dementia yng Nghymru.*

*Amcangyfrifir bod yna 45,000 o bobl yn byw â dementia yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae llai na 50% ohonynt wedi derbyn diagnosis ffurfiol. Mae derbyn diagnosis o ddementia'n grymuso pobl i wneud penderfyniadau am y gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn; mae'n agor y drws i gael at wasanaethau a, lle y bo angen, meddyginiaeth.*

*Fodd bynnag, mae'n debygol iawn bod hyd yn oed y rheiny sydd wedi derbyn diagnosis heb dderbyn y wybodaeth a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn byw'n dda â dementia. Ni dderbyniodd 1 o bob 10 o bobl â dementia yng Nghymru unrhyw gefnogaeth o gwbl yn y flwyddyn gyntaf ar ôl eu diagnosis, gan adael iddynt ymdopi â'u diagnosis ar eu pen eu hunain.*

*Mae pobl sy'n byw â dementia yng Nghymru yn llai tebygol o dderbyn diagnosis, ac maent yn llai tebygol o gael mynediad at gymorth ar ôl diagnosis na'r rheiny sy'n byw yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i hyn newid.*

*Mae arnom eisiau i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar ddementia i Gymru, strategaeth sy'n dangos ymrwymiad i wella cyfraddau diagnosis ac sy'n sicrhau'r mynediad at wasanaethau lleol a'r ansawdd gofal y mae pobl sy'n byw â dementia'n ei haeddu.*